



Cyflwyno neu ddiwygio troseddau neu gosbau

Canllawiau ar gyflwyno neu ddiwygio troseddau neu gosbau, ac amcangyfrif a chytuno ar oblygiadau ar gyfer y system gyfiawnder troseddol

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer swyddogion sy'n ystyried creu troseddau neu gosbau newydd, neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol, gan gynnwys cydgrynhoi, diddymu ac ail-ddeddfu ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'n rhoi trosolwg o faterion i'w hystyried cyn ceisio caniatâd Pwyllgor y Cabinet (a elwir hefyd yn y broses ysgrifennu o gwmpas) ar gyfer creu troseddau neu gosbau newydd neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol ac yn darparu cysylltiadau allweddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau a chyrrff llywodraeth perthnasol eraill.

Wrth ystyried a yw'n briodol cyflwyno trosedd yn hytrach na sancsiwn sifil, rydym yn cynghori swyddogion i ddarllen y canllawiau hyn ac unrhyw ddeunydd canllaw perthnasol arall yn gyntaf cyn trafod eu cynigion gyda swyddogion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.¹ Bydd p'un a ddylai ymddygiad fod yn fater sifil neu'n drosedd yn dibynnu i raddau helaeth ar natur a difrifoldeb y niwed posibl.

Cynnwys

Rhan Un: Ai trosedd newydd yw'r dull cywir?	3
Cymesuredd	3
Angenrheidrwydd	4
Rhan Dau: Canllawiau ar greu trosedd, diwygio trosedd bresennol, neu ddiwygio cosbau	5
Dolenni defnyddiol	9
Cysylltiadau allweddol	9

¹ Mae'r 'Canllawiau hyn ar gyflwyno neu ddiwygio troseddau neu gosbau' wedi disodli'r 'Canllawiau ar greu troseddau newydd' blaenorol a gyhoeddwyd yn 2015.

Atodiad A: Rhestr wirio o faterion eraill i adrannau eu hystyried wrth greu troseddau newydd neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol **11**

Rhan Un: Ai trosedd newydd yw'r dull cywir?

Gallai swyddogion ystyried creu troseddau neu gosbau newydd neu ddiwygio troseddau² neu gosbau presennol am y rhesymau canlynol:

- a) I droseddoli ymddygiad nad yw ar hyn o bryd yn gyfystyr â throsedd, neu ddad-droseddoli ymddygiad;
- b) I ymestyn trosedd presennol y tu hwnt i'w ffiniau gwreiddiol, er enghraifft i ystyried technoleg neu ymddygiadau sy'n newid;
- c) I newid y gosb y mae trosedd yn destun iddo ar hyn o bryd;
- d) Oherwydd ymrwymiad gan y llywodraeth (e.e., ymrwymiad maniffesto);
- e) I ymateb i ddatblygiadau mewn cyfraith achosion neu benderfyniad llys pwysig;
- f) Oherwydd gofyniad mewn cytundeb rhyngwladol y mae'r DU yn rhan ohono;
- g) I ddiddymu trosedd presennol a'i ddisodli â throsedd newydd er mwyn ei foderneiddio, ei hegluro neu ei gydgrynhoi.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i atal crynhoad o droseddau newydd diangen ac i sicrhau bod unrhyw droseddau newydd yn addas at y diben.

Mae'r gyfraith droseddol yn nodi pa ymddygiad sydd mor niweidiol a beius fel y dylid ei droseddoli. Felly, cyfrifoldeb adrannau unigol yw sicrhau nad yw troseddau newydd yn cael eu creu heb ystyriaeth ofalus a bod dewisiadau amgen i droseddau yn cael eu defnyddio lle gall mesurau eraill gyflawni'r amcan polisi.

Felly, cyn penderfynu creu troseddau neu gosbau newydd neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol, dylai swyddogion ystyried y canlynol a phenderfynu bod y camau gweithredu hyn yn gymesur ac yn angenrheidiol:

Cymesuredd

Mae cwestiynau i'w hystyried wrth asesu cymesuredd yn cynnwys:

Ar gyfer troseddau newydd neu ddiwygiedig

- A yw'r canlyniad i'r troseddwr yn briodol? A yw eu hymddygiad yn gwarantu sancsiwn troseddol a chofnod troseddol?³
- A fyddai camau gweithredu neu sancsiynau sifil yn fwy priodol, neu'n cyflawni'r amcan polisi yn ddigonol? Mae hefyd yn bosibl cyflwyno mesur hybrid – dyma lle mae sancsiynau sifil (darpariaethau rheoleiddio fel arfer) sy'n cael eu hategu gan droseddau/sancsiynau troseddol rhag ofn y bydd y gyfraith yn cael ei thorri.⁴
- A oes unrhyw gamau eraill y gellid eu cymryd i gyflawni'r amcan polisi?
- A yw er budd y cyhoedd i droseddoli'r ymddygiad hwn?
- A oes troseddau presennol sydd eisoes yn cwmpasu'r ymddygiad wedi'i dargedu?

² Trosedd yw gweithred neu hepgoriad sy'n anghyfreithlon ac y gellir ei gosbi gan y Wladwriaeth o dan y gyfraith droseddol.

³ Mae cofnod troseddol yn gofnod o euogfarnau troseddol person.

⁴ Sancsiwn sifil yw'r gosb weinyddol (yn aml yn ariannol) sy'n deillio o dorri deddfwriaeth anhroseddol (sifil).

- A yw'r drosedd newydd arfaethedig yn cael ei chreu at ddibenion ataliol yn unig ac, os felly, a oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r dull hwn?
- A oes rhwymedigaethau rhyngwladol cysylltiedig (e.e. drwy Gyngor Ewrop neu Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig) sy'n gwneud creu'r drosedd yn angenrheidiol (neu'n amhriodol)?
- A yw cyflwyno trosedd newydd yn golygu bod angen diddymu neu gydgrynhoi troseddau presennol?

Ar gyfer cosbau newydd neu ddiwygiedig

- A yw'r cosbau a gynigir ar gyfer y drosedd yn unol â'r cosbau uchaf ar gyfer troseddau presennol sy'n dal ymddygiad troseddol o ddifrifoldeb cymharol?
- A yw'r gosb uchaf yn gosb ddigonol am yr ymddygiadau gwaethaf y gellir eu dychmygu a gwmpesir gan y drosedd?
- A yw'r cosbau a gynigir ar gyfer y drosedd yn gymesur â lefel y niwed posibl a achosir gan yr ymddygiad hwn?

Angenrheidrwydd

- Os yw'r ymddygiad dan sylw eisoes wedi'i gwmpasu gan drosedd neu droseddau eraill, neu os nad yw'r bwlch yn y gyfraith yn ddigon sylweddol i warantu deddfwriaeth sylfaenol, efallai na fydd creu/diwygio trosedd/cosb yn cael ei ystyried yn angenrheidiol. Gall creu troseddau dyblyg achosi problemau ymarferol sylweddol i erlynwyr ac mae'n debygol o gael canlyniadau anfwriadol.
- Dim ond os nad yw'r ymddygiad eisoes wedi'i gwmpasu gan droseddau presennol, ac nad oes unrhyw fesurau eraill ar gael i gyflawni'r amcan polisi, y dylai swyddogion ystyried cyflwyno neu ddiwygio trosedd.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Gall swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder roi cyngor pellach ar ystyriaethau priodol mewn amgylchiadau penodol. Dylid ceisio barn adrannau cyfiawnder troseddol perthnasol eraill hefyd mewn perthynas â chymesuredd neu angenrheidrwydd (yn enwedig y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol).

Yn ogystal, dylai swyddogion fod yn ymwybodol o'r ffaith bod creu trosedd newydd, neu ddiwygio trosedd presennol, fel arfer yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Felly, dylent ystyried yr amser seneddol sydd ei angen a pha mor hir y gallai ei gymryd i gyflawni'r polisi. Ni ddylid gwneud ymrwymadau cyhoeddus i gyflwyno neu ddiwygio deddfwriaeth o fewn amserlen benodol heb ganiatâd gan y Pwyllgor Busnes a Deddfwriaeth Seneddol. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y Canllawiau ar Greu Deddfwriaeth y gellir ei ganfod yma: [Canllawiau ar Greu Deddfwriaeth](#).

Rhan Dau: Canllawiau ar greu trosedd, diwygio trosedd bresennol, neu ddiwygio cosbau

Mae'r canlynol yn rhoi canllawiau i'r rhai sydd wedi penderfynu mai trosedd newydd neu ddiwygio trosedd bresennol yw'r dull gorau o gyflawni eu hamcan polisi.

1. Cyn cyflwyno neu ddiwygio trosedd, rhaid i chi fod yn glir ynghylch:

- Yr ymddygiad rydych chi'n bwriadu ei droseddoli (yr actus reus)⁵
- Yr hyn nad ydych chi am ei droseddoli (e.e. a oes unrhyw eithriadau/amddiffynfeydd dros gyflawni'r ymddygiad hwn?)
- Cyflwr meddyliol gofynnol yr unigolyn pan fyddant yn cyflawni'r ymddygiad hwnnw (y mens rea)⁶, e.e. a oes angen i'r unigolyn fod â bwriad i gyflawni'r ymddygiad rydych chi am ei droseddoli?

Enghraifft wedi'i datrys:

Yn yr enghraifft hon, rydym yn edrych ar gynllun i droseddoli cuddio math penodol o wybodaeth. Cyn gwneud hynny, bydd angen i chi ystyried:

1. Beth a olygir gan 'guddio'?
 - a. Ai dim ond peidio dangos yw hyn? Neu a oes angen cuddio gweithredol?
 - b. Rhag pwy yr ydym yn poeni bod yr wybodaeth yn cael ei chuddio? Cyflogwr? Adran neu asiantaeth y llywodraeth? Yr Heddlu?
 - c. A ydym yn edrych i dargedu math penodol o wybodaeth? Sut fyddem yn diffinio ac yn nodi gwybodaeth berthnasol i'w gwmpasu gan y trosedd?
2. Pa ymddygiadau neu sefyllfaoedd *nad* ydych chi am eu droseddoli?
 - a. A ddylai unrhyw berson neu sefyllfa benodol gael ei heithrio o'r trosedd? Er enghraifft, person sy'n gweithredu mewn rôl statudol benodol?
 - b. A oes amddiffyniad y gallai fod angen iddo fod ar gael, er enghraifft, pe bai gan rywun esgus rhesymol i guddio gwybodaeth e.e., roeddent yn destun rhwymedigaeth statudol i beidio â rhannu gwybodaeth.
 - c. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol o droseddoli'r ymddygiad hwn?
3. Pa gyflwr meddyliol sydd ei angen er mwyn i'r weithred ddod yn droseddol?
 - a. A oes angen i'r person *fwriadu* cuddio'r wybodaeth? Neu a fydd yn ddigonol os ydynt yn cuddio'r wybodaeth mewn ffordd llai bwriadol, er enghraifft trwy fod yn fyrbwyl?

Canllawiau cyffredinol ar elfennau trosedd i'w hystyried wrth greu neu ddiwygio troseddau yw'r uchod. Cynghorir adrannau'r llywodraeth i ymgynghori â'u cyfreithwyr adrannol eu hunain am ragor o arweiniad a gwybodaeth.

⁵ Actus reus yw'r weithred neu'r hepgoriad sy'n cynnwys elfennau corfforol trosedd.

⁶ Mens rea yw elfen feddyliol neu gyflwr meddyliol person, sy'n angenrheidiol i sefydlu ei fod/ei bod yn gyfrifol yn droseddol am gyflawni elfen gweithred neu hepgoriad y trosedd.

2. Cyn cyflwyno neu ddiwygio trosedd, neu ddiwygio cosb, rhaid eich bod wedi gwneud asesiad o effeithiau'r mesur hwn ar y system gyfiawnder troseddol ac wedi cwblhau Prawf Effaith ar Gyfiawnder (JIT).

Rhaid cytuno ar yr effaith (gan gynnwys costau) ar y system gyfiawnder troseddol o ganlyniad i unrhyw droseddau newydd, neu ddiwygiadau i droseddau neu gosbau presennol a chyllid cysylltiedig, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau perthnasol y llywodraeth cyn ceisio caniatâd Pwyllgor y Cabinet.

Gan weithio ar y cyd â'u dadansoddwyr eu hunain yn y lle cyntaf, rhaid i adrannau fesur a chyfrifo cost effaith bosibl eu cynigion polisi ar y system gyfiawnder troseddol. Gall dadansoddwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder roi arweiniad i'r adrannau ar hyn os oes angen.

Rhaid ystyried trefniadau ariannu hefyd ac yna cytuno arnynt, a bydd Trysorlys EF hefyd yn craffu ar oblygiadau cost a threfniadau ariannu yn ystod y broses ysgrifennu o gwmpas. Rhaid i adrannau ddatgan yn eu llythyr ysgrifennu o gwmpas a fydd unrhyw effaith ar y system gyfiawnder troseddol, yn enwedig ym maes capasiti carchardai.

Bydd angen i adrannau ystyried yr effaith ar bob asiantaeth gyfiawnder troseddol gan gynnwys:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Llysoedd
- Gwasanaethau Carchardai a Phrawf .

Lle bo effaith ar asiantaethau o'r fath, rhaid ymgynghori â nhw.

Offeryn defnyddiol ar gyfer asesu effaith troseddau newydd neu droseddau diwygiedig ar y system gyfiawnder troseddol yw'r Prawf Effaith ar Gyfiawnder (JIT).

Yn ddelfrydol, rhaid i bob adran gwblhau'r JIT cyn proses ganiatâd Pwyllgor y Cabinet. Mae'r ffurflen hon yn helpu adrannau i nodi'r costau a'r goblygiadau galw ar gyfer pob asiantaeth. Gellir dod o hyd i Ganllawiau Prawf Effaith ar Gyfiawnder yma: [Canllawiau Prawf Effaith ar Gyfiawnder](#).

Ni ddylai gweinidogion ddisgwyl derbyn caniatâd polisi nes bod JIT wedi'i gwblhau a'i gytuno gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Lle nad yw JIT wedi'i gwblhau cyn proses ganiatâd Pwyllgor y Cabinet, dylid gwneud hyn yn glir yn y llythyr ysgrifennu o gwmpas sy'n ceisio caniatâd ar gyfer y drosedd newydd neu ddiwygiedig. Rhaid i'r adran dan sylw wneud ymrwymiad clir yn eu llythyr ysgrifennu o gwmpas i gwblhau JIT cyn gynted â phosibl.

I gael cyngor ar y JIT, cysylltwch â justiceimpact@justice.gov.uk.

Mae'r broses JIT yn cymryd tua 8 wythnos o'r dyddiad y mae'r Tîm Effaith ar Gyfiawnder yn derbyn y ffurflen JIT, er mwyn caniatáu digon o amser i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried y cynigion yn iawn. Bydd yr adran sy'n cyflwyno'r JIT yn gyfrifol am hysbysu'r Tîm

Effaith ar Gyfiawnder mewn modd amserol am unrhyw newidiadau i'r niferoedd disgwylidig ar ôl i'r effaith gael ei chytuno'n wreiddiol.

Unwaith y bydd trosedd newydd neu ddiwygiedig wedi'i weithredu trwy ddeddfwriaeth, dylai swyddogion barhau i asesu costau'r drosedd newydd neu ddiwygiedig a'i heffaith ar y system gyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn helpu i adlewyrchu'r pwysau gwirioneddol y mae'r system yn eu hwynebu ac felly, dylai swyddogion hysbysu'r Tîm Effaith ar Gyfiawnder trwy gyflwyno Prawf Effaith ar Gyfiawnder diwygiedig i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

3. Cyn cyflwyno neu ddiwygio trosedd, neu ddiwygio cosb, rhaid i chi ymgynghori â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau llywodraeth perthnasol eraill.

Ymgynghori â thimau polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Fel rheol, dylai adrannau llywodraeth eraill ymgynghori â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, pan fyddant yn ystyried cyflwyno troseddau neu gosbau newydd, neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol, ym mhob amgylchiad ac eithrio'r rhai mwyaf eithriadol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr ymgysylltiad hwn ddigwydd yn ôl-weithredol.

Rhaid ymgynghori â thimau polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'r broses JIT.

Rôl tîm Polisi Cyfraith Droseddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

- Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfrifoldeb cyffredinol am y gyfraith droseddol. Mae'n gyfrifol am gynnal "uniondeb cyfraith droseddol" a pholisi'r llywodraeth o osgoi creu troseddau newydd diangen. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, lle mae troseddau newydd yn cael eu creu, fod cysondeb, eglurder a chymesuredd.
- Mae Tîm Polisi Cyfraith Droseddol (CLP) y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn chwarae **rôl ymgynghorol** i adrannau llywodraeth eraill sy'n ystyried creu troseddau neu gosbau newydd neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol mewn meysydd y mae ganddynt gyfrifoldeb polisi amdanynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i adrannau llywodraeth eraill arwain ar ddatblygu'r polisi, cwblhau'r JIT, drafftio cyfarwyddiadau polisi a chyfreithiol ac unrhyw gymalau newydd. Gall y tîm CLP gynnig cyngor ar brosesau ac egwyddorion cyffredinol cyfraith droseddol.
- Bydd y tîm CLP yn cynghori Gweinidogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar unrhyw gynigion sydd ag effaith fawr, sy'n ddadleuol, yn anarferol, neu'n ddiangen, yn ogystal ag ar gynigion ar gyfer troseddau datganoledig sydd i fod yn berthnasol yng Nghymru yn unig sy'n gwyro oddi wrth droseddau tebyg sy'n berthnasol yn Lloegr. Noder, mae cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Rôl tîm Polisi Dedfrydu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

- Rôl Tîm Dedfrydu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw rhoi canllawiau i adrannau llywodraeth eraill a sicrhau bod y cosbau uchaf ar gyfer troseddau newydd a diwygiedig yn gymesur ac yn cyd-fynd â throseddau presennol sy'n dal ymddygiad sydd o ddifrifoldeb cymharol.

- Mae'r tîm hefyd yn sicrhau bod y math o dreial ar gyfer y drosedd, h.y., treial diannod, treial naill ffordd, treial ditiadwy, yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd, ac yn caniatáu uchafswm cosb briodol.
- Rhaid ymgynghori â'r Tîm Polisi Dedfrydu ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fframwaith dedfrydu, gan gynnwys ffactorau gwaethgol/lliniarol ac isafswm dedfrydau.

Ymgynghori ag adrannau perthnasol eraill

Yn dibynnu ar natur y drosedd/gosb i'w chreu/ei diwygio, efallai y bydd angen ymgynghori ag adrannau neu asiantaethau eraill.

Problem	Adran/corff i ymgynghori ag ef
Os bydd yn rhaid i CPS erlyn y drosedd	Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
Os oes problemau ynghylch awdurdodaeth alldiriogaethol	CPS/Tîm Polisi Cyfraith Droseddol (CLP) y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cais i'r system gyfiawnder gwasanaeth o dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
I helpu i benderfynu nifer yr achosion a fydd yn cael eu cwmpasu gan y drosedd/gosb newydd	CPS
Os bydd angen caniatâd y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ddwyn erlyniad ar gyfer y drosedd.	Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol (AGO)
Os bydd darpariaethau yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol neu os oes angen cychwyn cynnar	AGO
Effaith ar y llysoedd	GLITEF
Effaith ar Gymorth Cyfreithiol	LAA
Effaith ar garchardai neu brawf	Timau Carchardai a Phrawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Os yw'r drosedd yn codi problemau pwerau mynediad	Y Swyddfa Gartref
Goblygiadau i'r heddlu	Y Swyddfa Gartref
Os bwriedir ymestyn y drosedd i'r Alban	Swyddfa'r Alban, Llywodraeth yr Alban
Os bwriedir ymestyn y drosedd i Ogledd Iwerddon	Swyddfa Gogledd Iwerddon, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
Os bwriedir i'r drosedd fod yn berthnasol yng Nghymru	Swyddfa Cymru, Llywodraeth Cymru
Os bydd gofyn i gorff rheoleiddio neu awdurdod lleol weithredu mewn perthynas â'r drosedd/gosb e.e., nhw sydd i erlyn y drosedd.	Corff rheoleiddio neu awdurdod lleol perthnasol

Dylai'r Llywodraethau Datganoledig eu hunain fod yn rhan o'r broses cyn gynted â phosibl, lle bydd trosedd/cosb newydd/wedi'i diwygio yn effeithio ar eu hawdurdodaethau. Dylai adrannau eraill siarad â'u timau datganoli eu hunain, neu â thîm Polisi Datganoli ac Undeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder a all ddarparu canllawiau pellach.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol na ddylai adrannau ymrwymo i greu neu ddiwygio troseddau/cosbau neu gyflwyno cynigion i sefydliadau allanol, yn enwedig y Llywodraethau Datganoledig, cyn i weinidogion gytuno ar benderfyniad i greu neu ddiwygio'r troseddau/cosbau hynny ar y cyd.

4. Mae'n debyg y bydd angen caniatâd Pwyllgor y Cabinet i gyflwyno neu ddiwygio trosedd, neu ddiwygio cosb.

Lle mae cynnig yn ceisio creu troseddau newydd, neu'n diwygio troseddau a chosbau presennol, mae'n debyg y bydd angen caniatâd Pwyllgor y Cabinet. Dylid ymgynghori ag Ysgrifenyddiaeth y Cabinet os ydych yn ansicr. Gall Ysgrifenyddiaeth y Cabinet a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd gynghori pa adrannau eraill y dylid ymgynghori â nhw cyn ceisio caniatâd. Yn gyffredinol, ni roddir caniatâd ar gyfer troseddau newydd a ystyrir yn ddiangen neu'n anghymesur, neu lle nad yw'r goblygiadau cost wedi'u hamcangyfrif a'u cytuno'n llawn. Cyn ceisio caniatâd, yn ddelfrydol, dylid bod cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer creu neu ddiwygio'r drosedd wedi'i nodi.

Yn ddelfrydol, dylid cyflwyno a chlirio'r JIT cyn i adrannau'r llywodraeth ysgrifennu at Bwyllgorau'r Cabinet i gael caniatâd polisi.

Dolenni defnyddiol

Prawf Effaith ar Gyfiawnder <http://www.justice.gov.uk/legislation/justice-impact-test>

[Canllawiau Prawf Effaith ar Gyfiawnder](#)

[Pwerau mynediad - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) – Rhaid i adrannau sy'n ystyried creu, diwygio neu ail-ddeddfu pwerau mynediad roi sylw i'r Cod Ymarfer statudol a'r Canllawiau ar Bwerau Mynediad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

[Canllawiau ar Greu Deddfwriaeth](#)

[Datrysiadau Deddfwriaethol Cyffredin: canllawiau i fynd i'r afael â materion polisi sy'n codi dro ar ôl tro mewn deddfwriaeth](#)

Cysylltiadau allweddol

- Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol: Pennaeth Gwaith Achosion Troseddol, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, 020 7271 2492 (correspondence@attorneygeneral.gov.uk and consents@attorneygeneral.gov.uk) – Rhaid hysbysu Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol o unrhyw gynnig i greu trosedd sydd angen caniatâd gan y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ddwyn erlyniad.

- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
 - Tîm Effaith ar Gyfiawnder: JusticeImpact@justice.gov.uk
 - Tîm Tasglu Opsiynau Capasiti: COT@justice.gov.uk – Mae'r tîm yn adolygu'r holl fesurau deddfwriaethol a anfonir at y Pwyllgor Materion Cartref ac Economaidd i ystyried yr effeithiau ar leoedd carchar o ystyried y pwysau poblogaeth carchardai presennol.

Cafodd y canllaw hwn ei ddiweddarau ym mis Gorffennaf 2025.

Atodiad A: Rhestr wirio o faterion eraill i adrannau eu hystyried wrth greu troseddau newydd neu ddiwygio troseddau neu gosbau presennol

1. A ellir diogelu'r drosedd/gosb o gwbl ar gyfer y dyfodol, fel ei bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol? Er enghraifft, sut y gallai newidiadau technolegol effeithio ar y drosedd/gosb hon yn y dyfodol?
2. A oes eglurder ynghylch yr union ymddygiad(au) yr hoffech eu troseddoli a phwy yr ydych yn bwriadu y dylid eu cynnwys gan y drosedd?
3. A oes eglurder ynghylch yr ymddygiad(au) nad ydych am iddynt fod yn drosedd a phwy na ddylid eu cynnwys gan y drosedd?
4. Pa eithriadau neu amddiffyniadau arfaethedig i'r ymddygiad dan sylw a allai fod yn angenrheidiol? A oes pobl sy'n cyflawni'r ymddygiad gwaharddedig yn gyfreithlon na ddylid eu troseddoli (e.e., meddygon)?
5. A ydych chi wedi ystyried yr elfen feddyliol neu'r cyflwr meddyliol sy'n ofynnol i rywun gyflawni'r drosedd?
6. A yw'r newid yn angenrheidiol ac yn gymesur?
7. Beth yw'r cwmpas tiriogaethol?
8. Nid yw cyfraith droseddol Cymru a Lloegr (a chyfraith droseddol yr Alban a Gogledd Iwerddon) fel arfer yn ymestyn i ymddygiad y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, os yw'r drosedd yn cael effaith alldiriogaethol (h.y., i ddal ymddygiad droseddol y tu allan i'r DU) beth fydd y cyfiawnhad dros hyn a sut y caiff ei orfodi? (Mae awdurdodaeth alldiriogaethol fel arfer yn golygu lle mae dinesydd y DU neu berson sydd fel arfer yn byw yn y DU yn cyflawni'r drosedd y tu allan i'r DU)
9. Pa gosbau fydd ynghlwm wrth yr ymddygiad droseddol (carchar neu ddirwy neu'r ddau)? A yw'r cosbau'n gymesur ac yn angenrheidiol?
10. A yw'r cosbau uchaf a gynigir ar gyfer y drosedd yn unol â chosbau ar gyfer troseddau presennol sy'n dal ymddygiad o ddifrifoldeb cymharol?
11. Sut fydd y drosedd yn cael ei chategoreiddio h.y., treial diannod, treial naill ffordd, treial ditiadwy ac felly pa lysoedd fydd yn rhoi cynnig ar yr achos?
12. A fydd y drosedd yn cael ei chyflwyno trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, neu a oes pwerau galluogi sy'n caniatáu creu/diwygio troseddau/cosbau trwy ddeddfwriaeth eilaidd h.y., Rheoliadau?
13. Pryd fydd y drosedd newydd/trosedd/cosb ddiwygiedig yn dechrau?

14. A fydd y drosedd newydd yn glir i'r cyhoedd? A fydd yn glir i'r heddlu a'r erlynwyr, pwy fydd angen ei ddefnyddio? A fydd pobl yn deall yn union beth yw cwrmpas y drosedd?
15. Ydych chi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol fel llysoedd, yr heddlu ac asiantaethau erlyn ynghylch y drosedd newydd a sut y byddwch chi'n gweithredu'r darpariaethau?
16. A yw'r heddlu'n debygol o allu casglu digon o dystiolaeth i helpu Gwasanaeth Erlyn y Goron i brofi elfennau'r drosedd i'r safon droseddol? Ni ddylid creu troseddau sy'n annhebygol o fod yn erlynadwy. Gall gwneud hynny greu disgwyliadau ffug ymhlith dioddefwyr yn ogystal â risgiau i enw da'r Llywodraeth a Gwasanaeth Erlyn y Goron.
17. A fydd y dystiolaeth sydd ei hangen i brofi'r drosedd yn gymesur â'r ymddygiad dan sylw a'r gosb uchaf? (e.e. a ydych chi yn ei hanfod angen tystiolaeth arbenigol sylweddol ar gyfer trosedd dirwy yn unig).
18. A ymgynghorwyd â Llywodraethau Datganoledig?
19. A ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder?
20. A ymgynghorwyd ag adrannau/asiantaethau llywodraeth perthnasol eraill?
21. Ydych chi wedi cwblhau a chyflwyno'r ffurflen Prawf Effaith ar Gyfiawnder?
22. A fydd angen atodi pwerau/gorchmynion ategol i'r drosedd? Ai dyma'r math o drosedd lle byddai angen rhoi enw person ar gofrestr (e.e., cofrestr sy'n gwahardd pobl rhag gweithio gyda phlant)? A fydd y drosedd yn arwain at wahardd y person euog rhag gwneud rhywbeth (e.e. Gyrru)? A fydd angen atafaelu eiddo?
23. A fydd y drosedd newydd/ddiwygiedig yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?
24. A ydych chi wedi ystyried a chytuno ar yr effaith (ac yn enwedig y costau ac effeithiau ar leoedd carchar) y bydd y newid yn ei chael ar y system gyfiawnder troseddol?
25. Faint o achosion y flwyddyn y bydd y drosedd/gosb newydd/ddiwygiedig yn eu hachosi? I amcangyfrif hyn, efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried y canlynol:
 - a. Edrych ar droseddau tebyg, a nifer yr achosion sydd wedi codi ohonynt dros gyfnod penodol o amser.
 - b. Edrych ar gymariaethau rhyngwladol.
 - c. Ystyried a oes cyrhaeddiad alldiriogaethol ar gyfer y drosedd.
 - d. A oes amddiffyniadau a fydd yn lleihau nifer yr achosion a allai godi o'r drosedd.